COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 7 o FEHEFIN 2021 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (yn y gadair),Alan Lewis,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Meic Bowen,,Caroline Williams, Aled Williams,Margaret Rees a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Linda Williams,Tracey James,Geoff Hewitt a Geraint Rosser

2614 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a Linda Williams ar golli ei Thad-yng-nghyfraith a safodd pawb am funud o dawelwch.

2615 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 10/05/2021 fel rhai cywir.

2616 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2600 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Cafwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir yn gobeithio y bydd pethau yn symud yn fuan.
Tud 1. Cofnod Rhif 2600- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2600 - Cofeb Rhyfel Pontiets - Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ein bod wedi derbyn pris ychwanegol. Mae cais am nawdd ariannol wedi ei gwneud i'r 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2600 - Parc Pontiets - Gobeithir symud ymlaen a'r gwaith angenrheidiol o fewn yr wythnosau nesaf ac mae'r Cwmni yn deall pwysigrwydd y sefyllfa.
Tud 1. Cofnod Rhif 2600 - Llwybr Treftadaeth - Derbyniwyd amcan brys oddiwrth Cwmni Phillip Wait,Cynghordy. Penderfynwyd gwneud cais am nawdd oddiwrth Cronfa Persimmon,Ffoslas. Mae cais am nawdd ariannol wedi eu gwneud i Gynghorau Gwledig Llanelli a Thrimsaran hefyd.
Tud 1. Cofnod Rhif 2600- Parc Pontiets - Derbyniwyd yr amcan brys o £40 am drwsio'r Ffens a'r Seddi oddiwrth Marcus Dininno.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Alan Lewis yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2617 Capel Moreia Meinciau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2618 Apêl Cadeirydd y Cyngor Sir - Derbyniwyd Llythyr o ddiolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2619 Cyngor Sir Gar – Cau Ffordd Dros Dro –U2225, Pedair Hewl – Cydweli – Nodwyd y Llythyr.

2620 Cyngor Sir Gar – cau Ffordd Dros Dro – C2199, Carwe – Fynyddygarreg – Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

2621 a) Rhif y Cais - PL/01889 - Tir yn 2,Tawelfan,Carwe - Tŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais - PL/01943 - Fferm Tŷ Mawr,Brynseilo,Carwe - Estyniad - Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2622 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2623 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mai 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2624 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Mai)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mai)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mai)
ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Mai)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mai)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Mai)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mai)- £182.00
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Mai) - £15.53
ff) Marcus Dininno – Fandaliaeth yn Nhoiledau'r Meinciau -£20.00
g) Marcus Dininno– Torri Gwair,Carwe - £50.00
ng) Lamineiddio - £30.00
h) Ciran Griffiths – Torri Gwair ym Mhontnewydd - £20.00
i) Phillip Sillick – Archwiliad Mwenol - £150.00

2625 Datganiadau Cyfrifyddu 2020 - 2021 a'r Datganiad Llywodraethau Blynyddol
Cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Alan Lewis ein bod yn derbyn y Datganiadau Cyfrifyddu 2020 - 2021 a'r Datganiad Llywodraethau Blynyddol am y flwyddyn 2020-2021 fel y cyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith trylwyr yn y mater hwn.

2626 Yswiriant y Cyngor
Cafwyd adroddiad ein bod wedi derbyn Llythyr gan Cwmni Zurich yn cynnig Yswiriant am £1203.88. Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r swm priodol.

2627 Parc Gwynfryn
Wedi derbyn adroddiad y Clerc penderfynwyd ei bod yn edrych am amcan-brys i osod siglen i Blant bach yn y Parc.

2628 Sedd yng Ngharwe
Penderfynwyd edrych am amcan-brys i ail osod sedd yng Ngharwe.

Cyfarfod nesaf:- 5ed o Orffennaf 2021 yn y Brif Neuadd ym Mhontiets.

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……